10 Mehefin 2026

Annwyl

**ATISN 26963 Cynllun Ffermio Cynaliadwy**

**Gwybodaeth y gofynnwyd amdani**

Diolch ichi am eich cais a ddaeth i law ar 12 Mai 2026. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

1. Faint o ffermwyr, busnesau fferm neu ymgeiswyr cymwys sydd wedi cofrestru â’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy hyd yma?

2. Y ffigur hwn wedi’i rannu yn ôl ardal awdurdod lleol neu sir, math o fferm neu sector neu faint y taliad – yn dibynnu ar yr wybodaeth a gedwir

3. Faint o geisiadau neu ddatganiadau o ddiddordeb sydd wedi dod i law ar gyfer y cynllun hyd yma?

4. Faint o’r ceisiadau neu ddatganiadau o ddiddordeb hynny sydd: wedi’u derbyn / wedi’u gwrthod / wedi’u tynnu’n ôl / yn dal i aros am benderfyniad?

5. Unrhyw dargedau neu amcangyfrifon mewnol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer y ffermwyr y disgwylid iddynt gofrestru â’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy

6. Unrhyw gymhariaeth, os yw’n cael ei chadw, rhwng nifer y ffermwyr sydd wedi cofrestru â’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a nifer y ffermwyr a oedd yn derbyn cymorth drwy’r Cynllun Taliad Sylfaenol

7. Mewn perthynas ag unrhyw haenau ychwanegol, dewisol neu gydweithredol o fewn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy:
    - nifer y ffermwyr, busnesau fferm neu ymgeiswyr sydd wedi cofrestru neu wneud cais ar gyfer pob haen;
    - enwau’r haenau neu’r opsiynau sydd ar gael;
    - faint sydd wedi cael eu derbyn / eu gwrthod / wedi tynnu’n ôl / dal i aros am benderfyniad;
    - unrhyw ffigurau wedi’u rhannu yn ôl awdurdod lleol neu sir, os ydynt yn cael eu cadw;
    - unrhyw gyllid sydd wedi’i ddyrannu neu ei dalu hyd yma o dan bob haen;
    - unrhyw dargedau neu amcangyfrifon mewnol ar gyfer faint o ffermwyr oedd disgwyl iddynt ymuno â phob haen
    - mae hyn yn cynnwys unrhyw elfen o’r cynllun sydd y tu hwnt i’r haen sylfaenol neu gyffredinol, gan gynnwys cynlluniau dewisol, cynlluniau cydweithredol, prosiectau peilot neu unrhyw daliadau ychwanegol cysylltiedig â’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

**Ein hymateb**

Mae’r wybodaeth rydych wedi gofyn amdani mewn perthynas â phwyntiau 1, 2, 3 a 6 ar gael yma.

Mewn perthynas â’r wybodaeth y gwnaethoch ofyn amdani ym mhwynt 4 – mae pob hawliad yn y statws ‘wedi dod i law’ cyn cyfres o wiriadau cymhwystra a dilysu.

Mewn perthynas â’r wybodaeth y gwnaethoch ofyn amdani ym mhwynt 5 – nid oes unrhyw wybodaeth yn cael ei chadw gan nad oes targedau nac amcangyfrifon o’r fath.

Mewn perthynas â’r wybodaeth y gwnaethoch ofyn amdani ym mhwynt 7 – nid oes unrhyw wybodaeth yn cael ei chadw gan nad oes Gweithredoedd Opsiynol na Chydweithredol wedi cael eu cyflwyno ar gyfer yr SFS hyd yma.

**Y camau nesaf**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner’s Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir